

Anifeiliaid tyrchol

Mae cloddweithiau archeolegol yn arbennig yn denu anifeiliaid tyrchol gan eu bod yn cynnwys priddoedd sydd wedi draenio'n dda lle gellir palu twneli yn hawdd. Mae tyrchu nid yn unig yn amharu ar olion archeolegol, ond mae hefyd yn peri i gloddweithiau golli eu ffurf trwy gwmp. Gall da byw hefyd droi tyllau yn greithiau erydiad.

Dewisiadau i'w hystyried

- Rheoli niferoedd anifeiliaid tyrchol
- Codi ffensys i atal anifeiliaid tyrchol
- Atal agoriadau i dyllau

Gwarchodir moch daear o dan Ddeddf Moch Daear 1991 a Deddf Gwarchod Moch Daear 1992, sy'n ei gwneud yn drosedd i gymryd, lladd neu amharu ar fochyn daear neu ei ddaear. Os yw moch daear yn gwneud difrod i safleoedd archeolegol, ceisiwch gyngor gan Cadw a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.

Burrowing animals

Archaeological earthworks are particularly attractive to burrowing animals because they contain well-drained and easily tunnelled soils. Burrowing not only disturbs archaeological remains but also leads to earthworks losing their form through collapse. Livestock can also turn burrow entrances into erosion scars.

Options to consider

- Control burrowing animal populations
- Fence against burrowing animals
- Block up burrow entrances

Badgers are protected by the Badgers Act 1991 and the Protection of Badgers Act 1992, which make it a criminal offence to take, kill or interfere with a badger or its sett. If badgers are damaging archaeological sites, seek advice from Cadw and the Countryside Council for Wales.

Mae'r domen ganoloesol hon yn sir Faesyfed yn cael ei pheryglu gan anifeiliaid tyrchol, erydu gan anifeiliaid a difrod gan wreiddiau coed.

This medieval motte in Radnorshire is threatened by burrowing animals, stock erosion and tree root damage.





Mae'r rhes gerrig hon o'r Oes Efydd wedi goroesi er gwaethaf gwaith clirio yn y gorffennol, ac wedi'i hymgorffori mewn clawdd. Fodd bynnag, gallai lleoliad yr offer bwydo arwain at erydu pellach.

This Bronze Age stone row has survived clearance in the past, having been incorporated into a hedge bank. However, the position of the stock feeder may encourage further erosion.

Ffensys newydd, pyllau dŵr newydd a phlannu coed

Mae codi ffensys, palu pyllau dŵr a phlannu coed i gyd yn debyg o amharu ar unrhyw nodweddion archeolegol o dan wyneb y ddaear. Gall llinellau ffensys hefyd annog mathru, a bydd gwreiddiau coed hefyd yn amharu ar henebion wrth iddynt dyfu. Mae coed hefyd yn peri bygythiad wrth iddynt aeddfedu gan fynd yn ansefydlog ac mewn perygl o gael eu dymchwel gan y gwynt.

Dewisiadau i'w hystyried

- Gosod ffensys i ffwrdd oddi wrth safleoedd archeolegol lle bo'n bosibl
- Lleoli pyllau dŵr i ffwrdd oddi wrth safleoedd archeolegol
- Peidio â phlannu coed ar safleoedd archeolegol heb gyngor arbenigol

New fencing, ponds, and tree-planting

Putting up fencing, digging ponds, and planting trees are all likely to disturb any underlying archaeology. Fence lines may also encourage poaching, and tree roots will cause further disturbance as they grow. Trees also pose a threat when they become old, unstable and vulnerable to wind throw.

Options to consider

- Place fences away from archaeological sites wherever possible
- Site ponds away from archaeological sites
- Do not plant trees on archaeological sites without expert advice



Dylid symud y goeden farw ar y beddrod siambr Neolithig hwn ar Ynys Môn yn ofalus (gan adael y gwreiddiau) cyn iddi ddadwreiddio ac achosi difrod i'r strwythur a'r dyddodion archeolegol cysylltiedig.

The dead tree on this Neolithic chambered tomb on Anglesey should be carefully removed (leaving the roots in place) before it uproots and damages the structure and its associated archaeological deposits.



Gofalu am henebion ar dir âr

Mae nifer o safleoedd yn gorwedd o dan dir a drinnir yn rheolaidd. Heb unrhyw arwyddion amlwg ar y wyneb, maent yn aml yn gwbl anhysbys a heb eu cofnodi. Efallai mai dim ond pan fydd yr aradr yn taro carreg neu'n datguddio darn o grochenwaith neu waith metel y darganfyddir safle. Er hynny, ceir nifer o arwyddion a allai awgrymu bod olion claddedig yn bresennol ar dir âr:

- Darganfod olion gwasgaredig a ddygwyd i'r wyneb gan aredig, megis crochenwaith, clai llosgedig, gwaith metel ac asgwrn
- Lleiniau o dir caregog a deunyddiau adeiladu lle mae adeiladau yr amharwyd arnynt
- Lleiniau tywyllach neu oleuch mewn cae yn nodi nodweddion claddedig megis pyllau, ffosydd ac adeiladau
- Gwahaniaethau yn nhyfiant cnydau a achoswyd gan nodweddion archeolegol claddedig. Lle y ceir pyllau a ffosydd yn yr isbridd, gall cnydau (yn enwedig grawn) dyfu'n well gan fod y pridd yn ddyfnach ac yn wlypach. Ar y llaw arall, gall pridd llai dwfn dros waliau ac ardaloedd caregog olygu llai o leithder, gan arwain at gnydau gwywedig, llai o dyfiant ac aeddfedu cynnar.

Llun o ffermdy canoloesol â ffos wedi'i dynnu o'r awyr cyn (chwith) ac ar ôl (de) aredig. Mae'r cloddweithiau ac unrhyw ddyddodion archeolegol cysylltiedig bellach wedi'u dinistrio (Hawlfraint y Goron: CBHC).

A medieval moated homestead, photographed from the air before (left) and after (right) ploughing. The earthworks and any associated archaeological deposits have now been destroyed (Crown Copyright: RCAHMW).



Caring for monuments on arable land

Many sites lie beneath land that is regularly cultivated. With no obvious indications on the surface, they are often completely unknown and unrecorded. It is only when the plough strikes a stone or turns up a fragment of pottery or metalwork that a site might be recognized. Nevertheless, there are many clues that may indicate the presence of buried remains on arable land:

- A scatter of finds brought to the surface by ploughing, such as pottery, burnt clay, metalwork and bone
- Patches of stony ground and building materials representing disturbed structures
- Darker or lighter patches in a field marking buried features such as pits, ditches and buildings
- Differences in crop growth caused by buried archaeological features. Where there are pits and ditches in the sub-soil, crops (especially cereals) grow better because the soil is deeper and wetter. Conversely, reduced soil depth over walls and stony areas can mean restricted moisture, resulting in wilted crops, reduced growth and early ripening.

Gellir gweld cynlluniau llawr y fila
Rufeinig hon fel olion cnydau yn y
llun hwn a dynnwyd o'r awyr
(Hawlfraint y Goron: CBHC).

*The floor plans of this
Roman villa can be seen
clearly as cropmarks in this
aerial photograph (Crown
Copyright: RCAHMW).*



Sut y gall aredig tir wneud difrod?

Mae aredig tir yn gwneud difrod i olion archeolegol drwy wastadu cloddweithiau, drwy dynnu olion tanddaearol i'r wyneb, a thrwy erydu haenau pridd sy'n eu diogelu. Wrth i bŵer mecanyddol peiriannau fferm gynyddu, mae'r broblem hon yn gwaethygu. Mae trin tir nas aredwyd o'r blaen yn arbennig o niweidiol, ond felly hefyd mae gweithgarwch cysylltiedig megis clirio cerrig a thrin yr isbridd, a thyfu cnydau â gwreiddiau.

Gall trin tir i'r un dyfnder yn rheolaidd arwain at ddifrod cynyddol i ddyddodion archeolegol, yn enwedig ar lethr. Yna mae'r uwchbridd ar y lefelau uwch yn symud i lawr y llethr, gan adael nodweddion ar ben y llethr yn fwy agored. Gall trin priddoedd ysgafn arwain at gollu uwchbridd trwy erydiad gwynt, a gall unrhyw bridd a driniwyd gollu pridd trwy ddŵr ffo mewn tywydd gwlyb.

Sut i atal neu leihau difrod

Gall rheoli'r safle yn ofalus leihau'r effeithiau hyn, a gall cymorth grant fod ar gael gan Cadw i helpu i reoli henebion cofrestredig yn well. Y ffordd orau o ddiogelu safle

How is arable cultivation damaging?

Arable cultivation damages archaeological remains by levelling earthworks, by churning up below-ground remains, and by eroding protective layers of soil. As the mechanical power of farm machinery increases, this problem is being intensified. The cultivation of previously unploughed land is especially damaging, but so too are associated activities such as stone clearance and sub-soiling, and growing root crops.

Regular cultivation to the same depth can result in progressive damage to archaeological deposits, especially on a slope. There the topsoil at the higher levels drifts downhill, leaving features uphill more exposed. The cultivation of light soils can encourage loss of topsoil through wind erosion and all cultivated soils can suffer loss through run-off in wet weather.

How to prevent or minimize damage

Careful site management can reduce these effects, and grant-aid may be available from Cadw to help improve management of scheduled monuments. The best way to protect an

archeolegol mewn tir âr yw peidio â'i drin, a chaniatáu i laswellt dyfu drosto'n barhaol. Gall hyn hefyd helpu i leihau erydiad y pridd a rhoi cynefin bywyd gwylt.

Fodd bynnag, nid yw bob amser yn realistig i beidio ag aredig tir.

Dewisiadau i'w hystyried

- Peidio â thrin tir o amgylch safleoedd archeolegol
- Drilio uniongyrchol yn hytrach nag aredig
- Defnyddio'r technegau lleiaf dwys ar gyfer trin y tir – troi tir yn lle aredig
- Ar dir gwastad, lleihau dyfnder yr aradr i osgoi difrod newydd (nid yw hyn yn debygol o weithio ar lethrau)
- Osgoi cyflwyno offer mawr sy'n arwain at aredig dyfnach
- Osgoi trin yr isbridd, torri cletiroedd, clirio cerrig neu waith draenio newydd
- Sicrhau nad yw gwaith trin y tir a chynhaefu yn arwain at gywasgu neu erydu pridd
- Dylid cymryd gofal i sicrhau nad yw gwaith trin y tir yn lled-effeithio ar nodweddion hanesyddol ar dir cyfagos nas triniwyd neu wedi'u hynysu o fewn tir âr
- Gall prysgwydd dyfu dros safleoedd ynysig nas porir y mae tir âr o boptu iddynt a gallant fod yn lloches i blâu a rhywogaethau chwyn. Dylid ystyried torri achlysurol (o leiaf bob dwy flynedd)

archaeological site in arable ground is to exclude it from cultivation and place it under permanent grass. This can also help to reduce soil erosion and provide a wildlife habitat.

Taking land out of arable production, however, is not always realistic.

Options to consider

- Take archaeological sites out of cultivation
- Direct drill instead of ploughing
- Use minimum cultivation techniques — rotavation instead of ploughing
- On level land, reduce the current plough depth to avoid new damage (this is unlikely to work on slopes)
- Avoid introducing larger equipment that increases the plough depth
- Avoid sub-soiling, pan-busting, stone-clearing or new drainage operations
- Ensure cultivation and harvesting operations do not encourage compaction or soil erosion
- Take care that cultivation does not encroach on historic features on adjacent uncultivated ground or isolated within arable land
- Isolated and ungrazed sites surrounded by arable land can become overgrown with scrub and harbour pests and weed species. Consider periodic cutting (at least every two years)



Mae nifer o feini hirion wedi goroesi mewn caeau amaeth. Dylid gofalu na chânt eu taro gan offer fferm. Mae gadael ffin — a ddylai fod yn lletach na hyn — yn helpu i atal difrod.

Many standing stones survive in improved cultivated fields. Care should be taken not to knock them with farm machinery. Leaving a margin — which should be wider than this — helps to prevent damage.

Gofalu am henebion mewn coetir

Er y gall gwreiddiau coed wneud difrod i ddyddodion archeolegol o dan wyneb y ddaear, a gall coed ansefydlog achosi difrod mawr os dymchwelir hwy gan y gwynt, mae hen goetir yn aml wedi gwarchod nodweddion hanesyddol rhag defnydd amaethyddol dwysach. O ganlyniad mae nifer sylweddol o safleoedd wedi'u cadw'n dda mewn coetir aeddfed.

Yn gyffredinol, mae gwreiddiau coeden lawndwf yn annhebygol o ymestyn ymhellach, felly cyhyd â bod y goeden yn iach ac yn sefydlog nid oes fawr o fantais o'i thorri. Fodd bynnag, ceir eithriadau. Er enghraifft, os yw gwreiddiau'r goeden yn ymestyn o fewn neu'n agos at waith carreg lle gallai unrhyw symudiad achosi cwmp, neu os yw'r coed yn sefyll ar gloddwaith, sy'n rhoi sail lai sefydlog, efallai y byddai'n well eu torri. Gall coed unigol neu ardaloedd o goetir fod dan warchodaeth yn eu rhinwedd eu hunain, felly mae'n bwysig ymgynghori â'r Comisiwn Coedwigaeth Cymru cyn torri coed.

Caring for monuments in woodland

Although tree roots can damage archaeological deposits beneath the surface, and unstable trees cause extensive disturbance if they blow over, old woodland has often protected historic features from more intensive agricultural use. Consequently a significant number of well-preserved sites survive in mature woodland.

Generally the roots of a fully grown tree are unlikely to extend further so providing the tree is healthy and stable there is little to be gained from its removal. However, there are exceptions. For example, if the tree roots extend within or close to upstanding masonry where any movement could cause collapse, or if they stand on earthworks, which provide a less secure base, removal may be desirable. Individual trees and areas of woodland may be protected in their own right, so it is important that Forestry Commission Wales is consulted before felling takes place.

Ceir llawer o henebion cudd o fewn y dirwedd gyfoes. Mae'r crug crwn nodedig hwn o'r Oes Efydd sydd bellach yn sefyll mewn perthlys coediog bach wedi osgoi cael ei aredig ac mae llawer o'i broffil gwreiddiol i'w weld o hyd. Gobeithir y bydd unrhyw gladdedigaethau (corfflosgadau yn ôl pob tebyg) a dyddodion defodol sydd wedi'u cynnwys oddi mewn iddo wedi goroesi heb unrhyw ddiffrod mawr. Fodd bynnag, wrth i'r coed heneiddio, efallai y bydd cyflwr y crug yn dirywio wrth i wreiddiau'r coed a choed yn cwmpo amharu arno.



Many monuments are hidden within the modern landscape. Now situated within a small wooded copse, this fine Bronze Age round barrow has escaped ploughing and retains much of its original profile. It is hoped that any burials (probably cremations) and ritual deposits contained within will remain largely undamaged. However, as the trees age the barrow may suffer as root action and falling trees cause disturbance.



Lleolir yr odyr galch hon yn Nyffryn Gwy mewn coetir ac mae gwreiddiau'r coed i'w gweld yn achosi difrod. Dylid monitro coed mwy o faint a chael gwared ar goed ifanc.

This Wye Valley limekiln is situated within woodland and tree roots are visibly causing damage. Larger trees should be monitored and saplings removed.

Mae coed ifanc a choed sy'n tyfu yn peri mwy o fygythiad, felly dylid torri coed ifanc cyn iddynt dyfu'n rhy fawr.

Mae gorchudd y ddaear o fewn coetir yn bwysig iawn. Mae coed yn cau golau allan ac yn cymryd maetholion o'r pridd, felly gall fod yn anodd tyfu tywarchen laswellt iach (er gellir atal twf prysgwydd a choed ifanc). O ganlyniad gall y wyneb fod yn agored i erydiad, yn enwedig os torrir coed ac yna bod da byw yn cael mynd ar y tir.

Ceir cyngor pellach yn y llyfryn *Forests and Archaeology* a gyhoeddir gan y Comisiwn Coedwigaeth (mae'r cyhoeddiad yn cael ei ddiwygio ar hyn o bryd).

Young and growing trees pose a greater threat so saplings should be removed before they become too large.

Ground cover within woodland is of particular importance. Trees exclude light and take nutrients so it can be difficult to establish a healthy grass sward (although scrub and sapling growth may be suppressed). Consequently the surface can be vulnerable to erosion especially if livestock has access.

Further advice is contained in the booklet *Forests and Archaeology* published by the Forestry Commission (currently under revision).

Dewisiadau i'w hystyried

- Monitro cyflwr y coed i nodi coed ansefydlog
- Torri coed sy'n tyfu ar gloddweithiau neu'n agos at waith maen drwy eu torri ar lefel y ddaear. Trin bôn y coed neu eu gadael i bydru yn y fan a'r lle
- Torri coed ifanc
- Gosod ffensys i reoli da byw
- Rhoi mynediad rheoledig i'r safle i dda byw i atal aildyfiant
- Rheoli prysgwydd trwy eu torri'n achlysurol
- Gwarchod yr heneb yn ystod gwaith coedio
- Sicrhau bod modd mynd at y safle ar gyfer monitro a gwaith cynnal a chadw

Options to consider

- Monitor the condition of trees to identify any which are unstable
- Remove trees growing on earthworks or close to masonry by cutting at ground level. Treat stumps or leave to rot
- Remove saplings
- Install fencing to allow livestock control
- Use controlled livestock access to prevent regeneration
- Control scrub by periodic cutting
- Protect the monument during timber operations
- Keep sites accessible for monitoring and maintenance

Gellir gweld y llwybr canoloesol
anghyffredin hwn yn
Llangynfelyn fel clawdd isel yn
rhedeg ar draws cae porfa.
Roedd draeniad tir a
gwelliannau amaethyddol eraill
yn gryn ffigythiad i'w oroesiad a
chynhaliwyd gwaith cloddio i'w
achub (Ymddiriedolaeth
Archaeolegol Dyfed).



*The unusual medieval timber
trackway at Llangynfelyn could
be seen on the surface as a low
bank running across a pasture
field. Land drainage and other
agricultural improvements
presented a serious threat to its
survival and a rescue excavation
was undertaken (Dyfed
Archaeological Trust).*

Gofalu am henebion mewn gwlyptir

Mae'r glaw trwm yng Nghymru wedi creu ardaloedd helaeth o wlyptir. Mae hyn yn rhoi cynefin naturiol gwerthfawr ar gyfer bywyd gwyllt, ond mae amgylchiadau dyfrlawn hefyd yn diogelu deunydd organig, megis pren, a gollir fel arfer trwy ddatfeiliad naturiol. Nodwyd llwybrau hynafol (fel un a nodwyd yn ddiweddar yn Llangynfelyn ger Aberystwyth) a daethpwyd o hyd i olion sawl llong pren yn llaid a chlai morydol de Cymru. Gall gwlyptir ger henebion ddiogelu pail hynafol a darnau o bryfed, sy'n gallu rhoi darlun unigryw o'r amgylchedd ar y pryd.

Felly, rhaid ystyried yn ofalus cyn draenio gwlyptir. Gall effaith draenio ymestyn dros ardal fawr, a gallai effeithio ar henebion sydd gryn bellter o'r man lle gwneir y gwaith draenio.

Dewisiadau i'w hystyried

- Sicrhau bod draeniau newydd yn osgoi safleoedd archeolegol ac nid ydynt yn rhy agos i berimedr safleoedd archeolegol
- Cynllunio gwaith draenio fel bod safleoedd archeolegol mewn gwlyptir yn parhau â draeniad gwael

Caring for monuments in wetland

The high rainfall in Wales has resulted in extensive areas of wetland. This provides a valuable natural habitat for wildlife but waterlogged conditions also preserve organic material, such as wood, which is normally lost through natural decay. Ancient trackways have been identified (recently at Llangynfelyn, near Aberystwyth) and the remains of several timber boats have been found in the muds and estuarine clays of south Wales. Wet ground next to monuments may preserve ancient pollen and fragments of insects, which can provide a unique insight into the contemporary environment.

Therefore, drainage of wetland needs careful consideration. The effect can extend over a large area and might affect monuments some distance from the actual works.

Options to consider

- Ensure that new drains avoid archaeological sites and are not too close to their perimeter
- Design drainage schemes to allow archaeological sites in wetland to remain poorly drained

Gofalu am henebion gwaith maen sy'n sefyll

Mae gofalu am nodweddion gwaith maen a'u diogelu yn aml yn galw am sgiliau arbennig, ac nid argymhellir bod perchnogion yn ymgymryd ag unrhyw waith atgyweirio neu atgyfnerthu heb gyngor proffesiynol. Fodd bynnag, gellir gwneud llawer i sicrhau bod unrhyw adeiledd carreg yn goroesi yn yr hirdymor drwy gymryd rhai camau syml i reoli llystyfiant. Mae monitro rheolaidd yn sicrhau y gellir cymryd camau gweithredol priodol mewn da bryd, a gall hyn arbed llawer o gost ariannol yn y dyfodol.

Dewisiadau i'w hystyried

- Rheoli llystyfiant sy'n tyfu ar waith maen sy'n sefyll, neu o'i gwmpas — yn enwedig rhywogaethau dringol gyda gwreiddiau ymledol, megis iorwg
- Peidio â thynnu gwreiddiau allan sydd eisoes wedi ymledu i waith maen
- Monitro amgylchiadau'n rheolaidd
- Ceisio cyngor arbenigol os yw adeileddau'n ymddangos yn ansefydlog
- Torri coed sy'n tyfu gerllaw



Beddrod Neolithig wedi'i ymgorffori i gorlan defaid o gerrig sychion. Mae cynllun amaeth-amgylchedd Gogledd Eryri (a weinyddir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) wedi galluogi gwaith clirio (dde). Gallai arian ar gyfer prosiectau tebyg fod ar gael fel rhan o gynlluniau Tir Gofal a Cadw.

Caring for standing masonry monuments

The care and conservation of masonry features often require specialist skills and it is not recommended that owners undertake any repair or consolidation work without professional advice. However, the long-term survival of any stone-built structure can be greatly improved by taking some simple steps to control vegetation. Regular monitoring ensures that appropriate action can be taken in good time and this can save much expense later.

Options to consider

- Control vegetation growing on or around upstanding masonry — especially climbing species with invasive roots, such as ivy
- Do not pull out roots which have already invaded stonework
- Monitor condition regularly
- Seek specialist advice if structures appear unstable
- Remove trees growing close by



A Neolithic tomb incorporated into a drystone sheepfold (left). The Gogledd Eryri agri-environment scheme (administered by the Snowdonia National Park Authority) enabled simple clearance work (right). Funding for similar projects might be available as part of Tir Gofal or Cadw schemes.



Mae'r mwnt canoloesol hwn a'r fferm fodern yn cydweddu ac yn cyfrannu at y dirwedd fel cyfanrwydd — gorffennol, presennol a dyfodol. Gyda gofal, gellir sicrhau cydbwysedd rhwng cadwraeth treftadaeth ac amaethyddiaeth.

This medieval motte and modern farm sit together and contribute to the landscape as a whole — past, present and future. With care, a successful balance can be achieved between heritage conservation and agriculture.

Cyngor, grantiau a chymorth

Mae'r dewisiadau i'w hystyried a restrir yma yn amrywio o gamau gweithredu syml o ran gwella rheolaeth i gynlluniau mwy o faint. Arweiniad cyffredinol yn unig ydynt i'r mathau o gamau gweithredu sy'n gallu helpu i warchod yr amgylchedd hanesyddol. Yn ymarferol, y mesurau cadwraeth mwyaf effeithiol yw'r rheini sy'n ystyried nifer fawr o faterion: y math o safle, p'un a yw'r safle'n gofrestredig, rheolaeth tir yn lleol, y cynllun busnes fferm a'r cymorth sydd ar gael trwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol.

Henebion Cofrestredig

Mae cyngor manwl ar gael gan Cadw. Mae ein Wardeiniaid Henebion Maes lleol yn ymweld â henebion yn rheolaidd, a gellir cysylltu â hwy pryd bynnag mae angen cyngor. Mae nifer o'r 'dewisiadau i'w hystyried' yn gymwys i gael cymorth ariannol, naill ai trwy gytundeb rheoli (dros bum mlynedd fel arfer) â Cadw, neu fel grant unigol. Fel arfer bydd angen Cydsyniad Heneb Gofrestredig ar gyfer gweithgarwch sy'n golygu amharu ar y ddaear — hyd yn oed os yw hynny o fudd i'r heneb.

Henebion anghofrestredig

Gall Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru roi arweiniad a gwybodaeth. Mae gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Eryri ac Arfordir Penfro a rhai awdurdodau lleol swyddogion archeolegol sy'n gallu rhoi cyngor. Efallai y gallant hefyd roi cymorth ariannol ar gyfer gwaith cadwraeth ar safleoedd cofrestredig ac anghofrestredig.

Cynlluniau amaeth-amgylcheddol

Mae cymorth i'r diwydiant amaeth bellach yn cydnabod pwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd hanesyddol. Mae dau gynllun yn cynnig help i ofalu am nodweddion hanesyddol.

Tir Gofal sy'n rhoi'r cymorth mwyaf. I fod yn gymwys, rhaid i fferm gynnwys ystod o asedau amgylcheddol eisoes, ac mae nodweddion hanesyddol yn cyfrif tuag at hyn. Os derbynir fferm ar gyfer y cynllun hwn, mae'r ffermwr yn cael taliad yn gyfnewid am reoli nodweddion amgylcheddol naturiol a hanesyddol ar draws y fferm mewn modd sy'n cydweddu â'r amgylchedd. Mae nifer o'r 'dewisiadau i'w hystyried' a restrwyd yn rhan o'r cyfarwydddebau rheoli cyffredinol. Mae'n bosibl cael

Advice, grants and support

The options to consider listed here range from simple steps to improve management to larger schemes. They offer only a general guide to the sort of actions that can help protect and preserve the historic environment. In practice, the most effective conservation measures are those which take account of a wide range of issues: the type of site, whether it is scheduled, local land management, the farm business plan, and the support available through agri-environmental schemes.

Scheduled Ancient Monuments

Detailed advice is available from Cadw. Our locally based Field Monument Wardens visit scheduled sites regularly and can be contacted whenever advice is needed. Many of the 'options to consider' are eligible for financial support, either through a management agreement (usually over five years) with Cadw, or as a single grant. Activities that involve ground disturbance — even if they benefit the monument — will normally require Scheduled Monument Consent.

Unscheduled monuments

The local Welsh Archaeological Trusts can provide guidance and information. The National Park Authorities for Snowdonia and the Pembrokeshire Coast and some local authorities have archaeological officers who can advise. They may also be able to provide financial help for conservation work to both scheduled and non-scheduled sites.

Agri-environmental schemes

Support for the agriculture industry now acknowledges the importance of protecting the historic environment. Two schemes offer help in the care of historic features.

Tir Gofal provides the highest level of support. To qualify, a farm must already include a range of environmental assets, and historic features count towards this. If accepted for the scheme, the farmer receives a payment in return for sympathetic management of both natural and historic environmental features throughout the holding. Many of the 'options to consider' listed form part of the general management prescriptions. It is possible to

taliadau ychwanegol ar gyfer rhai o'r 'dewisiadau' helaethaf, y gellid eu cynnwys fel 'gwaith cyfalaf' i atgyweirio, gwella neu ddiogelu heneb benodol. Mae Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru yn gweithio gyda'r Swyddogion Prosiect Tir Gofal lleol i nodi nodweddion hanesyddol ar y fferm ac argymell cyfarwyddbau rheoli priodol.

Mae Tir Cynnal yn cynnig gofal mwy sylfaenol ar gyfer nodweddion hanesyddol ar y fferm. Efallai y bydd yn apelio at ffermwyr nad ydynt yn gymwys i gael cytundeb Tir Gofal neu nad ydynt ond yn gallu cymryd camau cadwraeth mwy cyfyngedig oherwydd natur busnes eu fferm. Nodir nodweddion hanesyddol hysbys i'r ffermwr, a bydd yn cael taliad i weithredu rhai o'r dewisiadau mwyaf sylfaenol a restrwyd uchod i sicrhau na wneir difrod i'r nodwedd hanesyddol.

Mesurau Trawsgydymffurfio a Chyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC).

Mae gofalu am yr amgylchedd ehangach bellach yn rhan hanfodol o gymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r diwydiant amaeth. Bellach mae angen i ffermwyr sy'n dymuno manteisio ar Gynllun y Taliad Sengl (SPS) ddilyn y mesurau ar gyfer Trawsgydymffurfio a GAEC. Gallai arferion amaethyddol amhriodol sy'n gwneud difrod i henebion cofrestredig effeithio ar daliadau. Mae'r 'dewisiadau' i'w hystyried a restrir yn cynnwys rhai awgrymiadau bach sy'n helpu i sicrhau y bodlonir gofynion.

Nid yw'n bosibl ariannu'r un gyfundrefn reoli trwy fwy nag un cynllun. Mae'n dilyn y gall ffermwyr gael taliadau o dan Gynllun y Taliad Sengl a bod yn rhan o gynllun Tir Gofal, Tir Cynnal neu un o gynlluniau Cadw, ond bod yn rhaid i'r elfennau o gymorth ariannol ar gyfer gofalu am nodweddion hanesyddol ym mhob cynllun fod ar wahân.

Er enghraifft, byddai disgwyl i ffermwr sy'n cael taliad o dan Gynllun y Taliad Sengl atal mathru ac erydu ar safle heneb gofrestredig (GAEC F). Gallai gofyniad sylfaenol o'r fath fod yn rhan benodol mewn cytundeb Tir Gofal neu gytundeb rheoli gyda Cadw, ond ni fyddai'n un o'r elfennau a fyddai'n gymwys i gael taliad. Fodd bynnag, gallai cytundebau o'r fath gynnwys darpariaeth ar gyfer lefelau stoc penodedig i helpu i reoli ac adfer safleoedd, a gallai cymorth grant fod ar gael ar gyfer ffensys i helpu i reoli da byw.

Mae'n bwysig ystyried safleoedd archeolegol hysbys wrth ddatblygu cynllun busnes fferm neu wrth ystyried

receive additional payment for some of the more extensive 'options', which might be included as 'capital works' to repair, enhance or conserve a particular monument. The Welsh Archaeological Trusts work with the local Tir Gofal Project Officers to identify historic features on the farm and recommend appropriate management prescriptions.

Tir Cynnal offers support for a more basic level of care for historic features on the farm. It may appeal to farmers who do not qualify for a Tir Gofal agreement or whose farm business can only accommodate more limited conservation measures. Known historic features will be identified to the farmer and he will receive a payment to implement some of the more basic options listed above to ensure they are not damaged.

Cross Compliance and Good Agricultural and Environmental Condition (GAEC) measures.

Care of the wider environment is now a critical part of the Welsh Assembly Government's support for the agricultural industry. Farmers wishing to take advantage of the Single Payment Scheme (SPS) now need to follow the measures for Cross Compliance and GAEC. Inappropriate agricultural practices which cause damage to scheduled monuments could affect payments. The listed 'options to consider' include some modest suggestions which help ensure requirements are met.

It is not possible to fund the same management through more than one scheme. It follows that while a farmer may receive a payment under the SPS and be in a Tir Gofal, Tir Cynnal, or a Cadw scheme, the elements of financial support for the care of historic features in each scheme must be distinct.

For example, a farmer receiving a SPS payment would be expected to prevent trampling and erosion on a scheduled monument (GAEC F). Such a basic requirement may still be specified in a Tir Gofal agreement or a management agreement with Cadw, but it would not be one of the elements for which a payment could be made. However, such agreements could include provision for specified stocking levels to assist in management and recovery, while grant-aid might be available for fencing to help with livestock control.

It is important to take account of known archaeological sites when a farm business plan is developed or when an

cynllun amaeth-amgylcheddol. Er enghraifft, gall rheoli'r pridd, rheoli gwastraff fferm, datblygu fferm a chreu cynefinoedd oll effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol.

Casgliad

Mae gofalu am henebion hanesyddol Cymru a'u gwarchod nid yn unig yn diogelu adnodd gwerthfawr a bregus ond yn helpu i sicrhau tirwedd fwy amrywiol a deniadol. Unwaith y caiff henebion a nodweddion archeolegol eu difrodi neu eu dinistrio, ni ellir byth eu hailosod na'u deall yn iawn — a cholllir elfennau pwysig o'n hetifeddiaeth a'n hanes. Mae dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r amgylchedd hanesyddol yn hanfodol os ydym am ddiogelu cyflawniadau ein hynafiaid er budd cenedlaethau'r dyfodol.

agri-environment scheme is under consideration. For example, soil management, farm waste management, farm development and habitat creation can all affect the historic environment.

Conclusion

The care and conservation of the historic monuments of Wales not only protect a valuable and fragile resource but also help to ensure a more diverse and attractive landscape. Ancient monuments and archaeological features once damaged or destroyed can never be replaced nor properly understood — and important elements of our inheritance and history are lost. An understanding and appreciation of the historic environment is essential if we are to protect the achievements of our ancestors for the benefit of future generations.

Er ar yr olwg gyntaf nid yw'r carnedd gylch hon o'r Oes Efydd yn fawreddog, pan gloddiwyd hi amlygwyd tystiolaeth hynod am ddefodau claddu ein cyndadau dros 3,500 mlynedd yn ôl. Drwy ofalu am ein henebion a'u gwarchod gellir sicrhau y bydd straeon unigryw o lawer o wahanol safleoedd yn goroesi er mwyn i genedlaethau'r dyfodol archwilio iddynt (Mick Sharp Photography).



Although at first glance this Bronze Age ring cairn is not imposing, when excavated it revealed fascinating evidence about the burial rites of our ancestors over 3,500 years ago. The continued care and conservation of our historic monuments will ensure that other unique stories from many different sites will survive for future generations to explore (Mick Sharp Photography).

Rheoli henebion ar y fferm

- 1 Mae coetir — yn arbennig coetir naturiol — a choedwigoedd yn aml yn cuddio nodweddion hanesyddol. Cymerwch ofal i beidio â'u difrodi yn ystod gwaith coedwigo.
- 2 Yn aml, darganfyddir nodweddion archeolegol sydd wedi goroesi yng nghorneli caeau neu mewn cloddiau a ffiniau, lle gwelwyd llai o bwysau o ran gwelliannau amaethyddol. Dylid sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar yr ardal o amgylch nodweddion o'r fath.
- 3 Er mwyn diogelu henebion archeolegol rhag difrod damweiniol neu ddifrod wrth aredig tir, gadewch ardal heb ei thrin o'u hamgylch. Mae hyn yn eu helpu i gydweddu'n well â'r dirwedd ehangach.
- 4 Yn aml, mae ffermydd anghyfannedd a hen systemau caeau yn cynnwys gwybodaeth archeolegol sydd weithiau'n cysylltu â mapiau hanesyddol a chynlluniau o'r ardal leol. Yn aml, mae'n fuddiol i henebion o'r fath os yw'r tir o'u hamgylch yn cael ei adael fel glaswelltir parhaol.
- 5 Mae angen rheoli cloddweithiau archeolegol sy'n sefyll yn ofalus er mwyn atal erydu a mathau eraill o ddifrod. Ceisiwch osgoi aredig y tir ac ystyriwch leoliad offer bwydo anifeiliaid yn ofalus.
- 6 Mae prysgwydd a rhedyn yn cuddio ac yn difrodi henebion archeolegol bregus. Dylid cael gwared ar lystyfiant yn ofalus.
- 7 Gall llwybrau ar gyfer cerbydau a llwybrau ar gyfer anifeiliaid neu ymwelwyr achosi rhigolau ac erydu. Dylid atal difrod drwy greu llwybr newydd. Lle caniateir mynediad i'r cyhoedd, dylid monitro cyflwr safleoedd archeolegol.
- 8 Mae nodweddion hanesyddol fel waliau cerrig sych ac odynau calch yn gwella'r dirwedd hanesyddol. Ceisiwch osgoi difrod fel gwrthdrawiadau damweiniol gan beiriannau fferm.
- 9 Yn aml, mae nodweddion amlwg fel carneddau claddu wedi goroesi ar dir pori ucheldirol garw. Ceisiwch osgoi unrhyw safleoedd archeolegol wrth wneud gwelliannau (fel gwaith draenio).
- 10 Yn aml, mae ardaloedd o wlyptir yn cynnwys archeoleg gudd a weithiau, safleoedd mawr fel y ffermdy canoloesol hwn â ffos. Cynlluniwch waith draenio fel bod safleoedd archeolegol mewn gwlyptir yn parhau â draeniad gwael. Dylid sicrhau bod draeniau newydd yn osgoi safleoedd archeolegol.
- 11 Yn aml, mae llwybrau yn dilyn llwybrau hanesyddol fel ffyrdd canoloesol a Rhufeinig. Cynlluniwch lwybrau newydd er mwyn osgoi difrodi henebion archeolegol.

Darluniau gan Joanna Griffiths.


Managing monuments on the farm


- 1 Woodland — particularly natural woodland — and forestry often hide historic features. Take care not to damage them during forestry operations.
- 2 Archaeological features are often found preserved in the corners of fields or contained within banks and boundaries, where the pressure of agricultural improvement has been less. Buffer zones should be left around such features.
- 3 To protect archaeological monuments from the plough or accidental damage, leave a buffer zone around them. This helps them fit better into the broader landscape setting.
- 4 Deserted farmsteads and old field systems often contain archaeological information — sometimes linking with historic maps and plans of the local area. It is often of benefit to such monuments if the land around is left as permanent grassland.
- 5 Upstanding archaeological earthworks require careful management in order to prevent erosion and other damage. Avoid ploughing them and position stock feeders carefully.
- 6 Scrub and bracken obscure and damage fragile archaeological monuments. Growth should be removed carefully.
- 7 Vehicle tracks and paths for stock or visitors can cause rutting and erosion. Damage should be prevented by re-routing the track. Where public access is allowed, monitor the condition of archaeological sites.
- 8 Historic features such as drystone walls and limekilns enhance the historic landscape. Avoid damage such as accidental knocks from farm machinery.
- 9 Prominent features such as burial cairns often survive in rough upland pasture. When making improvements (such as drainage) avoid any archaeological sites.
- 10 Wetland areas often contain hidden archaeology and, sometimes, large sites such as this medieval moated homestead. Design drainage schemes to allow archaeological sites in wetland to remain poorly drained. New drains should avoid archaeological sites.
- 11 Tracks often follow historic routes such as medieval and Roman roads. Design new tracks to avoid damaging archaeological monuments.

Illustration by Joanna Griffiths.

Cyfeiriadau Defnyddiol/Useful Addresses

- 1 Cadw**
Llywodraeth Cynulliad Cymru/
Welsh Assembly Government
Plas Carew
Uned/Unit 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd/Cardiff CF15 7QQ
Ffôn/Tel 01443 33 6000
Ffacs/Fax 01443 33 6001
www.cadw.cymru.gov.uk
www.cadw.wales.gov.uk
- 2 Cyngor Cefn Gwlad Cymru/
Countryside Council for Wales**
Maes y Ffynnon
Fford Penrhos
Bangor LL57 2DW
Ffôn/Tel 01248 385500
Ffacs/Fax 01248 385511
www.ccw.gov.uk
- 3 Comisiwn Brenhinol
Henebion Cymru/
Royal Commission on the Ancient
and Historical Monuments of Wales**
Adeilad y Goron/Crown Building
Plas Crug
Aberystwyth SY23 1NJ
Ffôn/Tel 01970 621200
Ffacs/Fax 01970 627701
www.rcahmw.org.uk
- 4 Comisiwn Coedwigaeth Cymru /
Forestry Commission Wales**
Tŷ Victoria/Victoria House
Rhodfa Fuddug/Victoria Terrace
Aberystwyth
Ceredigion SY23 2DQ
Ffôn/Tel 0845 604 0845
Ffacs/Fax 01970 625282
www.forestry.gov.uk/wales
- 5 Ymddiriedolaeth Archaeolegol
Morgannwg-Gwent/Glamorgan-
Gwent Archaeological Trust**
Tŷ Heathfield/Heathfield House
Heathfield
Abertawe/Swansea SA1 6EL
Ffôn/Tel 01792 655208
Ffacs/Fax 01792 474469
www.ggat.org.uk
- 6 Ymddiriedolaeth Archaeolegol
Dyfed/Dyfed Archaeological Trust
(Archaeoleg Cambria Archaeology)**
Neuadd y Sir/The Shire Hall
Stryd Caerfyrddin/Carmarthen Street
Llandeilo
Sir Gaerfyrddin/Carmarthenshire SA19 6AF
Ffôn/Tel 01558 823131
Ffacs/Fax 01558 823133
www.acadat.com
- 7 Ymddiriedolaeth Archaeolegol
Clwyd-Powys/Clwyd-Powys
Archaeological Trust**
7a Stryd yr Eglwys/7a Church Street
Y Trallwng/Welshpool
Powys
SY21 7DL
Ffôn/Tel 01938 553670
Ffacs/Fax 01938 552179
www.cpat.org.uk
- 8 Ymddiriedolaeth Archaeolegol
Gwynedd/Gwynedd Archaeological
Trust**
Craig Beuno
Ffordd y Garth
Bangor
Gwynedd LL57 2RT
Ffôn/Tel 01248 352535
Ffacs/Fax 01248 370925
www.heneb.co.uk





6

7

8

10

11



1

4

9

6

2

5

3

Cadw yw is-adran amgylchedd hanesyddol
Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ei nod
yw hybu'r gwaith o gadw amgylchedd
hanesyddol Cymru a'i werthfawrogi.

© Cadw (Hawlfraint y Goron)
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

Cadw is the Welsh Assembly Government's
historic environment division. Its aim is to
promote the conservation and appreciation
of Wales's historic environment.

© Cadw (Crown Copyright)
Welsh Assembly Government
Plas Carew
Unit 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Cardiff CF15 7QQ